**Y CYFANSODDIAD A'R PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**
**17 HYDREF 2018**

Cofnodion cyfarfod o Gyfansoddiad a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ar ddydd Iau, 17 Hydref 2018.

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Rita Johnson (Cadeirydd)**

Cynghorwyr: Glyn Banks, Marion Bateman, Chris Bithell, Clive Carver, Bob Connah, Jean Davies, Rob Davies, Ian Dunbar, David Healey, Joe Johnson, Mike Peers, Paul Shotton, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

**WRTH GEFN:**

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd: Dave Wisinger

**HEFYD YN BRESENNOL**: Cynghorwyr: Patrick Heesom (fel arsylwr)
Alison Thomas a Kate Glover- Jones o'r Gwasanaeth Ieuenctid

**YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

**9. DATGAN CYSYLLTIAD**

Ni dderbyniwyd unrhyw sylw.

**10. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'i arwyddo gan y Cadeirydd.

**11. ASTUDIAETH SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU - TROSOLWG A CHRAFFU - ADDAS AR GYFER Y DYFODOL**

Eglurodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wedi cynnal eu hastudiaeth trwy gynnal cyfweliadau gydag unigolion a grwpiau a thrwy arsylwi ar nifer o gyfarfodydd pwyllgor rhwng Hydref a Rhagfyr y llynedd. Enwyd nifer o gynghorwyr oedd wedi bod yn rhan o hyn. Roedd wedi cynnwys grŵp o Aelodau oedd newydd eu hethol, yn ogystal ag Aelodau oedd wedi bod yn gwasanaethu yn y cyngor blaenorol.

Hefyd, cynhaliwyd cyfweliadau unigol gyda'r Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Swyddog Gweithredu Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

Gwnaed pedwar argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef y:-

P1 Dylai'r Cyngor gynnal hunan asesiad o'i swyddogaeth drosolwg a chraffu yn rheolaidd, i ystyried ei heffaith, a nodi meysydd gwella.

P2 Datblygu ymhellach blaen raglenni gwaith craffu i:

- sicrhau bod y dull craffu yn gwbl addas i'r pwnc dan sylw a'r canlyniad a ddymunir, ac ystyried dulliau mwy arloesol i gynnal gweithgaredd craffu.

P3 Dylai'r pwyllgorau trosolwg a chraffu wella ymhellach eu trefniadau ar gyfer hybu ymgysylltu â'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill o ran gweithgaredd craffu.

P4 Dylai'r Cyngor adolygu'r trefniadau cefnogi ar gyfer trosolwg a chraffu yng ngoleuni heriau presennol ac yn y dyfodol.

Gwahoddodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Aelodau'r pwyllgor i ystyried a chynnig sylwadau ar yr argymhellion hyn.

Dywedodd Cynghorydd Dave Healey nad oedd yn gallu cytuno â'r argymhellion, oherwydd credai nad oeddent yn rhoi darlun cywir o'r ffordd yr oedd Trosolwg a Chraffu yn gweithio. Cyfeiriodd at ei rôl fel Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid a dywedodd nad oedd y pwyllgor hwn yn cael ei 'arwain gan aelodau' a chyfeiriodd at enghreifftiau lle'r oedd Aelodau wedi herio swyddogion ynghylch y canlynol:-

- Effaith y rhyngrwyd ar bobl ifanc – beth oedd Sir y Fflint yn ei wneud i bwysleisio'r peryglon?
- Dechrau adroddiad ar y Gwasanaeth Ieuenctid a sut yr oedd yn gweithredu – roedd y mater hwn yn gais gan un o'r Aelodau;
- GwE – pan oeddent yn bresennol yn y pwyllgor, roedd Aelodau'n gofyn am ddiweddariadau ar wahanol faterion fel tlodi misglwyf a chludiant ysgol;
- Hefyd gofynnwyd cwestiynau am effaith y cyllidebau lle nad yw'r arian yn newid ar ysgolion. Roedd Penaethiaid hefyd wedi bod yn bresennol ac roedd eu cynrychiolwyr wedi siarad ag Aelodau a swyddogion yn amlinellu eu pryderon.

Dywedodd y Cynghorydd Healey mai dim ond rhai enghreifftiau oedd y rhain o ba mor rhagweithiol y bu'r swyddogaeth graffu yn ystod y llynedd.

Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod yr astudiaeth wedi ei chynnal hydref diwethaf. Roedd ef a phenaethiaid gwasanaethau democrataidd eraill wedi gwneud y pwynt i SAC na fyddai cynnal astudiaeth o'r fath mewn awdurdodau lleol lle cynhaliwyd etholiadau'n ddiweddar, yn debygol o roi adlewyrchiad cywir o'r arfer craffu. Mae'n debygol y byddai nifer

o newidiadau yn sgil yr etholiad. Hefyd, ni ddylid defnyddio nifer bach o gyfarfodydd i roi darlun llawn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton at y cyfarfodydd a gynhaliwyd y tu allan i Neuadd y Sir fel yn Nyffryn Maes Glas, Parc Wepre, ac Ysgolion yr 21ain Ganrif (Treffynnon, Ysgol Uwchradd Cei Conna a'r Hwb). Dywedodd fod angen i'r cyfarfodydd hyn yn y gymuned gael cyhoeddusrwydd mwy effeithiol i annog pobl i ddod iddynt.

Cytunodd y Cynghorydd Ian Dunbar â'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Healey. O safbwynt y Blaen Raglenni Gwaith, bod rhaglen waith Pwyllgor Craffu a Throsolwg Cymuned a Menter, yr oedd yn ei gadeirio, yn llawn, gyda phynciau a gynigiwyd gan aelodau. Ychwanegodd fod y swyddogaeth graffu'n gweithio'n dda iawn ond roedd yn cydnabod bod angen ymgysylltu mwy â'r cyhoedd.

Roedd y Cynghorydd Chris Bithell yn bryderus pan gyfarfu â Swyddfa Archwilio Cymru eu bod eisoes wedi gwneud penderfyniad cyn cynnal y cyfarfodydd ac roedd yn gofyn i ba raddau y roedd y sylwadau'n gyffredinol neu'n benodol i Sir y Fflint. Atgoffodd Aelodau fod Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu yn tynnu sylw at yr hyn yr oedd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi eu trafod ar hyd y flwyddyn. Ychwanegodd, fel Aelodau'r Cabinet, ei fod ef ac eraill yn cael eu holi'n gyson gan Aelodau.

Aeth y Cynghorydd Bithell yn ei flaen i gyfeirio at Ddigwyddiadau Ymgysylltu â'r Cyhoedd a gynhaliwyd mewn blynyddoedd blaenorol lle'r oedd presenoldeb y cyhoedd yn wan, oedd yn resyn. Roedd yn cydnabod oni bai bod y cyfarfodydd yn trafod rhywbeth oedd yn cael ei ystyried yn hollbwysig neu rywbeth yr oedd gan y cyhoedd ddiddordeb neilltuol ynddo, nid oeddent yn cymryd rhan. Cytunodd pe bai mwy o'r cyhoedd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y byddai hynny'n sicrhau ymgysylltu rhagorol â'r cyhoedd.

Dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ei fod wedi gweld rhai o'r adroddiadau gan awdurdodau eraill a bod sylwadau tebyg ynddynt. Fodd bynnag, pwysleisiodd fod gan bob cyngor ei argymhellion penodol ei hun. Cytunodd hefyd â sylwadau'r Cynghorydd Bithell ynglŷn ag ymgysylltu â'r cyhoedd.

Cytunodd y Cynghorydd Mike Peers â sylwadau'r Cynghorydd Healey y dylid eu nodi fel arfer gorau ac y dylai'r arfer gorau o bwyllgorau craffu eraill gael ei gyflwyno. Roedd yn siomedig nad oedd sylwadau a wnaed i SAC ar brofiadau aelodau, rhestr cwestiynau a phynciau a adroddwyd yn ôl a'r defnydd o alw i mewn, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

Aeth y Cynghorydd Peers yn ei flaen i gyfeirio at dudalen 7 o adroddiad Trosolwg a Chraffu SAC. Roedd Aelodau'r pwyllgor yn canmol yn fawr y gefnogaeth yr oeddent wedi'i chael gan staff Gwasanaethau Democrataidd. Serch hyn, roedd ganddynt farn gymysg am yr wybodaeth a roddwyd i bwyllgorau. Roedd nifer o aelodau'r pwyllgor yn bryderus ynghylch rhai o'r adroddiadau a dderbyniwyd am eu bod yn rhy hir; a bydd angen rhoi sylw i hyn. Ar sail y sylwadau hyn, credai y dylid bod wedi cynnwys pumed argymhelliad yn

dweud “Y dylai’r Cyngor sicrhau bod gan Aelodau wybodaeth ddigonol ac nad yw’r adroddiadau’n rhy fawr.” O ran paragraff 23, a chyflwyno adroddiadau i bwyllgorau “er gwybodaeth”, dywedodd y Cynghorydd Peers y byddai angen ymateb i hyn.

Cytunodd y Cynghorydd Clive Carver â sylwadau a wnaed gan gydweithwyr. Cyfeiriodd at gofnodion Adnoddau Corfforaethol oedd wedi’u hysgrifennu’n dda ond oedd yn dangos diffyg cwestiynau craffu gan Aelodau’r grŵp gweinyddu. Tynnodd sylw at y ffaith mai rôl Aelod ar y pwyllgorau hyn yw fel cyfaill beirniadol ac y dylai bob Aelod, waeth i ba blaid y mae'n perthyn, fod yn fodlon siarad.

Dywedodd y Cynghorydd Marion Bateman fod y blaen raglenni gwaith yn darged hawdd ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a gofynnodd a ddylai’r adroddiad hwn gael ei symud yn nes i fyny’r agenda. Mewn ymateb dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod yr adroddiad hwn fel arfer ar y diwedd i allu cynnwys gwaith mwy myfyriol oedd wedi codi yn ystod yn cyfarfod yn y Blaen Raglen Waith. Fodd bynnag, roedd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol wedi bod yn ystyried eu blaen raglen waith ar ddechrau’r cyfarfod mewn sawl cyfarfod.

Mewn ymateb i sylwadau’r Cynghorydd Carver dywedodd y Cynghorydd Chris Bithell fod aelodau ei grŵp ef yn gofyn cwestiynau heriol yn aml.

Cytunodd y Cynghorydd Glyn Banks fod hon yn edrych fel dogfen generig ac awgrymodd y gallai bob un Aelod edrych ar adroddiad un awdurdod i ganfod beth oedd eu hymateb i’r astudiaeth hon.

Cytunodd y Cynghorydd Arnold Wooley ag Aelodau ar bob ochr. Awgrymodd gyflwyno system gydag aelodau annibynnol na fyddai’n gyndyn i dafod materion cynhennus.

Mewn ymateb dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod cydbwysedd gwleidyddol yn ofyniad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac mai dim ond Llywodraeth Cymru allai newid y rheolau hynny.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Dave Healey at sylw’r Cynghorydd Woolley ar gydbwysedd gwleidyddol gan ddweud mai’r system bresennol oedd yr unig ffordd i gael cyllideb gytbwys.

Cyfeiriodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd at Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid oedd â 25% o’i aelodau wedi’u cyfethol oedd yn annibynnol, gan gynrychioli rhiant llywodraethwyr ac awdurdodau eglwysig.

Gofynnodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd am gytundeb i ddosbarthu templed hunan werthuso “holiadur craffu effeithiol’ y Ganolfan Craffu Cyhoeddus. Cytunwyd ar hyn.

**PENDERFYNWYD:**

1 Derbyn y pedwar argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn eu hadroddiad *Astudiaeth Trosolwg a Chraffu– Addas ar gyfer y Dyfodol?*.

2 Gofyn i'r swyddogion edrych ar sut y gall y cynigion gyfrannu at waith Trosolwg a Chraffu yn y dyfodol, gan gynnwys dosbarthu templed hunan werthuso "holiadur craffu effeithiol' y Ganolfan Craffu Cyhoeddus.

## 12. <u>CAIS I GYFETHOL I'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG AC IEUENCTID</u>

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad a gyflwynwyd i gael cytundeb mewn egwyddor i aelod o Gyngor Ieuenctid Sir y Fflint fod yn bresennol a chymryd rhan yng nghyfarfodydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid.

Gofynnodd Cynghorydd Mike Peers pryd oedd y cais yn cael ei wneud a pha ddisgwyliadau a ragwelid o ran y cynrychiolydd a fyddai'n bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai gan y cynrychiolydd rôl anstatudol heb unrhyw hawl i bleidleisio, ond byddai'n gallu siarad. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn elwa ar glywed persbectif person ifanc. Roedd yn rhagweld trefniant cyfatebol gyda'r pwyllgor craffu a'r Cyngor Ieuenctid yn elwa ar y profiad.

Croesawodd y Cynghorydd Chris Bithell y syniad ar gyfer y Pwyllgor Addysg ac Ieuenctid a holodd a fyddai'r sawl a gâi ei enwebu neu ddirprwy'r Cyngor Ieuenctid yn gallu codi materion i'w cynnwys ar yr agenda.

Dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n gallu gwneud hynny. Aeth yn ei flaen i egluro'r protocolau ymgysylltu cyhoeddus oedd yn galluogi i unrhyw aelod o'r cyngor fynychu, arsylwi a siarad mewn pwyllgorau.

Croesawodd y Cynghorydd Dave Healey yr awgrym, felly hefyd yr Aelodau eraill.

Awgrymodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y gallai Alison Thomas a Kate Glover- Jones o'r Gwasanaeth Ieuenctid oedd yn bresennol, egluro sut byddai'r trefniadau cyfethol yn gweithio. Dywedodd Ms Thomas y byddai'r cynrychiolydd yn fwy na thebyg yn astudio gwleidyddiaeth yn yr ysgol ac y byddai'n cael amser i ffwrdd fel rhan o'r cwrs. Byddai gwaith y Cyngor Ieuenctid yn edrych ar waith yr Awdurdodau Lleol. Eglurodd Ms Thomas nad oedd y Cyngor Ieuenctid yn barod eto i enwebu a chyfethol rhywun, ond roedd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth oedd ar gael drwy'r cytundeb mewn egwyddor.

Awgrymodd y Cynghorydd Marion Bateman fod y Pwyllgor yn arsylwi un o gyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid.

Cadarnhaodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r aelod newydd a gâi ei gyfethol yn cael yr un sesiwn gynefino ag aelodaeth eraill oedd yn cael eu cyfethol, i egluro prosesau'r pwyllgor ac y byddai'n cael ei briffio/friffio'n llawn. Aeth yn ei flaen i awgrymu cafeat pe bai'r Cyngor Ieuenctid yn dod i ben, y byddai'r trefniant cyfethol hefyd yn dod i ben.

Roedd y Cynghorydd Jean Davies yn cefnogi'n llawn y trefniant cyfethol ac awgrymodd fod mentor yn cael ei benodi i helpu Cynrychiolydd y Cyngor Ieuenctid.

**PENDERFYNWYD:**

Cytuno mewn egwyddor â chyfethol cynrychiolydd o'r Cyngor Ieuenctid i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuenctid, gyda chafeat pe bai'r Cyngor Ieuenctid yn dod i ben, y byddai'r trefniant cyfethol hefyd yn dod i ben.

## 13. DIWEDDARIAD AR DDATBLYGU AELODAU AC YMGYSYLLTU

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad gan ddweud ei fod yn arfer gan y pwyllgor dderbyn adroddiadau cynnydd ar Ddatblygu Aelodau a digwyddiadau Ymgysylltu a drefnwyd. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys manylion digwyddiadau a gynhaliwyd ers yr adroddiad diwethaf ar y pwnc, ar 20 Mehefin 2018.

Rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd drosolwg o bresenoldeb yng ngweithdai cyllideb penodol diweddar y pwyllgor. Dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton ei fod o fudd i bob Aelod fynd i gyfarfodydd i ddeall y darlun cyffredinol. Dylai Arweinyddion Grŵp siarad gyda'u Haelodau sy'n absennol.

Roedd y Cynghorydd Neville Phillips yn bryderus fod cyfarfodydd yn cael eu canslo a'u newid yn aml. Mewn ymateb dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd fod cyfarfodydd yn aml wedi'u trefnu fisoedd ymlaen llaw ac weithiau bod rhaid eu canslo am nad oedd gwybodaeth ar gael neu am nad oedd adroddiadau'n barod. Fel mater o gwrteisi, roedd trefn o ymgynghori â Chadeirydd neu Is-gadeirydd pwyllgor cyn penderfynu peidio â chynnal cyfarfod.

Diolchodd Aelodau i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'i dîm am ddarparu digwyddiadau datblygu aelodau ac ymgysylltu.

Cyfeiriodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd at yr Arolwg Iaith Gymraeg a dywedodd ei fod wedi derbyn ymateb drwy e-bost gan 54 o Gynghorwyr a'i fod yn disgwyl ymateb gan 16 arall. Byddai'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn ac i Adnoddau Corfforaethol. Gofynnodd Aelodau am fanylion y Grŵp Sgwrsio yn Gymraeg y cyfeiriwyd ato.

**PENDERFYNWYD:**

1. Bod adroddiad cynnydd Ddatblygu Aelodau ac Ymgysylltu yn cael ei dderbyn a'i nodi.

2. Bod manylion y Grŵp Sgwrsio yn Gymraeg yn cael eu rhannu i Aelodau.

## 14. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd aelodau o'r cyhoedd a'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben am 3.25 pm)

...............................
**Cadeirydd**